Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (LLANDRINDOD I'R DRENEWYDD, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483 rhwng Llandrindod a'r Drenewydd, Powys, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a 'r gwaharddiad mewn grym, yn ysbeidiol, rhwng 08:00 o'r gloch ar 29 Chwefror 2016 hyd 18:00 o'r gloch ar 31 Mai 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r A483 rhwng ei chyffordd â chylchfan yr A4081 wrth Landrindod a chanolbwynt ei chyffordd â'r A489 wrth Ffordd Dolfor, y Drenewydd. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A483 TRUNK ROAD (LLANDRINDOD WELLS TO NEWTOWN, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Llandrindod Wells and Newtown, Powys.

It is expected that the restrictions and prohibition will be in force, intermittently, from 08:00 hours on 29 February 2016 until 18:00 hours on 31 May 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notice of the restrictions and prohibition will be displayed approximately 2 weeks before the start of any works.

The effect of the proposed Order will be to temporarily impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A483 between its roundabout junction with the A4081 at Llandrindod Wells and the centre-point of its junction with the A489 at Dolfor Road, Newtown. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE